# Cartrefi Lleol, Cyflenwi Lleol

Mai 5 2022

Chartered Institute of Housing Cymru

**Credwn y dylai fod gan bawb fynediad i rywle diogel a fforddiadwy i'w alw'n gartref. A chynghorwyr lleol yw'r rhai sydd agosaf at eu cymunedau lleol ac felly yn y sefyllfa orau i ddeall pa mor bwysig y mae cartrefi da o ran creu lleoedd y gall pobl ffynnu o ddifri ynddynt. Taclo tlodi, gwella iechyd y boblogaeth, gwella cydlyniant a ffyniant cymunedau – mae tai yn gonglfaen i rai o heriau pwysicaf yr oes sydd ohoni.**
**Cyn yr etholiadau lleol ym mis Mai eleni, mae CIH Cymru yn galw ar bob ymgeisydd i gefnogi ein haddewidion Cartrefi Lleol, Cyflenwi Lleol i helpu i wneud cartref da, cynaliadwy, hygyrch a fforddiadwy yn realiti ar gyfer pawb yng Nghymru.**

## Meddyliwch Tai!

Wrth i'r cyhoedd yng Nghymru'n byw drwy argyfwng costau byw enbydus, ar ddiwedd cyfnod o ansicrwydd sylweddol, nid fu rôl tai o ran adfywio economïau lleol, darparu cyflogaeth, hyfforddiant a buddsoddiad lle mae ei angen fwyaf erioed mor bwysig.
Rydyn ni'n gofyn i gynrychiolwyr awdurdodau lleol hyrwyddo rôl gweithwyr tai proffesiynol wrth gyfrannu at bartneriaethau, a'u harwain, o fewn ac ar draws ystod o sectorau, gan gynnwys seilwaith economaidd, iechyd, gofal cymdeithasol, diogelwch cymunedol a thrafnidiaeth.
I flaenoriaethu gwaith y sector yn lleol, a hyrwyddo cydnabyddiaeth ohono fel sector gan arbed cryn dipyn iawn o adnoddau a gostwng y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus allweddol drwy weithredu gyda chymunedau a thros gymunedau.







Datblygiadau sydd ar y gweill o dai Sir Ddinbych

## 1. Blaenoriaethu tai cymdeithasol

*Pam?*

Mae tai cymdeithasol yn chwarae rhan enfawr wrth sicrhau bod opsiynau tai fforddiadwy ar gael sy'n addas i bawb, helpu i ymdrin â digartrefedd, a darparu cartrefi i bobl o bob cefndir a phob lliw a llun, ar yr un pryd â chreu gwerth a ffyniant mewn economïau lleol. Gyda tharged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel, mae gan awdurdodau lleol rôl enfawr i'w chwarae wrth wireddu'r weledigaeth honno. Rydym am weld awdurdodau lleol yn blaenoriaethu tir ar gyfer tai cymdeithasol, gan sicrhau cyflenwad sydd wedi'i gynllunio'n dda ar draws ardaloedd gwledig a threfol a fydd yn cyflawni uchelgais y sector ac yn diwallu anghenion dybryd cymunedau.

## 2. Cymryd camau ar dai gwag

*Pam?*

Mae Cymru yn wynebu argyfwng tai dybryd. Mae costau tai esgynnol ynghyd â galw mawr yn tanseilio gallu pobl i ddod o hyd i gartrefi addas. Gwelwn fod y pwysau hyn yn aciwt mewn ardaloedd mwy gwledig o Gymru lle mae ail gartrefi hefyd yn gwaethygu'r her. Mae cartrefi gwag yn adnodd wedi'i wastraffu y gellir eu defnyddio i ddarparu cartref i rywun sydd angen cartref addas ar frys. Rydym am weld awdurdodau lleol yn blaenoriaethu eu hadnoddau i daclo'r broblem yn uniongyrchol, drwy gyllid ailgylchadwy, arbenigedd staff ac ymgysylltu â chymunedau.

## 3. Cynnal momentwm wrth fynd i'r afael â digartrefedd

*Pam?*

Bu'r ymateb i'r pandemig gan awdurdodau lleol wrth gefnogi pobl i gael rhywle diogel i aros yn ddigynsail o ran ei raddfa a'i effaith. Wrth i ni symud drwy'r pandemig, ac yn ôl at realiti sy'n agosach at normalrwydd, mae'n hanfodol nad yw'r buddion a gyflawnwyd yn cael eu colli. Rydym yn gofyn i awdurdodau lleol barhau â'u hymdrechion i ganolbwyntio ar gomisiynu gwasanaethau hirdymor i gefnogi ac atal digartrefedd yn ogystal â datblygu ymagweddau newydd ar garlam – megis ailgartrefu cyflym – a allai arwain at lwyddiant pellach.

## 4. Gwneud tai'n flaenllaw o ran newid yn yr hinsawdd

*Pam?*

Saif gweithredu ar newid yn yr hinsawdd wrth wraidd y ffordd y mae sectorau, llywodraethau, diwydiannau ac ati yn siapio eu gwaith. Wrth ystyried eu cynlluniau ar gyfer tai a chymunedau, gall awdurdodau lleol barhau i ymgymryd â rôl flaenllaw o ran y camau y mae cymdeithas yn eu cymryd. Rydym am weld awdurdodau lleol yn blaenoriaethu tai sy'n garbon niwtral, yn gysylltiedig â theithio llesol ac yn cynnwys nodweddion i hyrwyddo bioamrywiaeth.

## 5. Buddsoddi yng ngweithluoedd awdurdodau lleol

*Pam?*

Trwy ein prosiect Tyfu Tai Cymru rydym wedi gwneud arolygon rheolaidd gyda gweithwyr tai proffesiynol ac, o ganlyniad, rydym yn gwybod y caiff cymhelliant llawer o bobl i weithio yn y rolau hyn ei sbarduno gan awydd am gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas. Ond gall diffyg adnoddau'n lleol, timau bach sy'n cyflwyno uchelgeisiau mawr a blaenoriaethau sy'n cystadlu danseilio eu gallu i gael yr effaith hon. Rydym yn gofyn i gynrychiolwyr llywodraeth leol fod yn hyrwyddwyr y gweithlu er mwyn sicrhau bod gweithwyr tai proffesiynol yn derbyn yr hyn sydd ei angen arnynt i gyflwyno canlyniadau trawsnewidiol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

